

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**  
**DYDD MAWRTH, 15 TACHWEDD 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi  
Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Hybrid Meeting Dydd Mawrth, 15 Tachwedd  
2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd David Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Mel Buckley, Chris Dolphin, Mared Eastwood, Ray  
Hughes, Richard Lloyd, Mike Peers, Vicky Perfect, Dan Rose, a Roy Wakelam

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Dennis Hutchinson ar ran y Cynghorydd Ian  
Hodge

**CYFRANWYR:**

Y Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a  
Gwarchod y Cyhoedd) y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor  
ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol),  
y Cynghorydd David Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi), Prif  
Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau  
Stryd a Chludiant), Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio, Rheolwr Menter ac  
Adfywio a Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion  
Gwasanaethau Democraidd

**27. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd dim

**28. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol  
a'r adroddiad Orlhain Camau Gweithredu i'w hystyried. Tynnodd sylw at yr  
eitemau a oedd wedi'u trefnu i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a  
oedd i gael ei gynnal ar 13 Rhagfyr 2022 a soniodd am yr eitemau i'w hystyried  
mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Rhoddodd yr Hwylusydd ddiweddariad ar waith ar y gweill ar yr eitemau  
oedd yn weddill yn yr adroddiad Orlhain Camau Gweithredu. Rhoddodd yr  
Hwylusydd hefyd ddiweddariad ar gynnydd i drefnu cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor  
Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant i ystyried parcio y tu allan i'r  
ysgol.

Gofynnodd y Cadeirydd bod eitem yn cael ei hychwanegu at y Rhaglen  
Gwaith i'r Dyfodol er mwyn ystyried y meini prawf eithriadau ar gyfer y cyfyngiad  
20mya a fyddai'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru flwyddyn nesaf.  
Siaradodd y Cynghorydd Mike Peers am y cynllun priffyrdd 20mya a gyflwynwyd  
dros gyfnod prawf ym Mwcle ym mis Mawrth eleni. Darparodd wybodaeth gefndir  
a dywedodd fod pryderon wedi cael eu mynegi i'r Gweinidog gan Aelodau lleol yn  
ardal Bwcle mewn perthynas â'r cynllun prawf. Soniodd am farn y Cyngor ar y

cynllun peilot a dywedodd ei fod yn cefnogi'r awgrym i gynnal cyfarfod neu weithdy i ystyried y mater cyn gynted â phosibl.

Mynegodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson bryderon ynglŷn â chyflwr / gwelededd gwael rhai o'r marciau ar y ffyrdd yn Sir y Fflint a nododd farciau ffordd ger cylchfannau mewn rhai ardaloedd fel enghraifft.

Mewn ymateb i'r sylwadau a'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Peers, eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) fod bwriad i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â'r cynllun 20mya ym Mwcle ac y byddai datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi yr wythnos hon. Cyfeiriodd at lansiad Llywodraeth Cymru o'r ddeddfwriaeth genedlaethol newydd ym mis Ionawr 2023 a chefnogodd yr awgrym i gynnal gweithdy yn dilyn y lansiad. Cytunodd y Prif Swyddog i drafod yn unrhyw bryderon penodol a oedd gan y Cynghorydd Hutchinson mewn perthynas â'r marciau ffordd, ar ôl y cyfarfod.

Siaradodd y Cynghorydd David Healey o blaid cynnal ymgynghoriad â'r cyhoedd ar gynllun priffyrdd 20mya Llywodraeth Cymru.

Gwahoddwyd yr Aelodau i godi unrhyw eitemau eraill yr oeddent yn dymuno eu cyflwyno i'w cynnwys ar y Rhaglen.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Mike Peers a Roy Wakelam.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar y newidiadau uchod;
- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

#### **29. POLISI PÂS CERBYD I GANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF TY**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) yr adroddiad. Darparodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod yr adroddiad yn darparu trosolwg o effaith y polisi diwygiedig ynghyd â manylion yr adolygiad a gynhaliwyd a'r cynigion ar gyfer diwygio'r polisi. Cyflwynwyd ystyriaethau pellach ar weithrediadau ehangach Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref gyda'r bwriad o gyflwyno arbedion a gwelliannau pellach i'r gwasanaeth.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad a darparodd drosolwg o'r prif ystyriaethau mewn perthynas â gweithredu'r polisi pas cerbyd yn yr adroddiad. Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio at y ddau weithdy i aelodau a gynhaliwyd yn ystod mis Medi 2022 i gynnal adolygiad o'r polisi er mwyn i Aelodau allu cyflwyno adborth neu bryderon yr etholwyr i swyddogion. Ehangwyd yr adolygiad i gynnwys gweithrediadau ehangach y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, gyda'r bwriad o gyflwyno

gwelliannau pellach i'r gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer ailgylchu. Roedd manylion ynglŷn â chynnwys y gweithdai ynghlwm wrth yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio, yn dilyn gwerthusiad o'r adborth a ddarparwyd o'r gweithdai, bod nifer o gynigion wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried. Roedd sylwadau'r Aelodau, yr ystyriaethau cysylltiedig i'w hadolygu ac, yn dilyn gwerthusiad o fanteision ac anfanteision yr ystyriaethau hynny, canlyniad arfaethedig ar gyfer bob sylw, wedi'u nodi yn Atodiad 3 yr adroddiad. Ysgrifennwyd y canlyniadau arfaethedig mewn dogfen bolisi ddiwygiedig i'w hystyried. Roedd y diwygiadau a'r cymalau newydd i'w cynnwys yn y polisi wedi'u hamlygu yn Atodiad 4.

Hefyd, adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio ar welliannau pellach i wasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac fe gyfeiriodd at y cynigion o ran y gwasanaeth archebu, codi tâl am waredu gwastraff (Masnachol / Elusen), oriau agor amgen a chodi tâl am gyflyrwr pridd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Roy Wakelam at dudalen 55, Atodiad 4 yn yr adroddiad, a gofynnodd a fyddai modd diwygio'r pwynt bwled 'cerbyd symudedd' i 'unrhyw gerbyd symudedd'. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio y gellid rhoi eglurder o ran cyfyngiadau uchder a hyd y cerbyd yn y polisi.

Mynegodd y Cynghorydd Mike Peers bryderon ynglŷn â'r rheswm dros wrthod cerbydau gydag arwyddion ysgrifenedig arnynt gyda gwastraff masnachol yn benodol a dywedodd nad oedd y polisi yn cynnwys unrhyw beth nad oedd yn gysylltiedig â gwastraff masnachol. Gofynnodd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i eithriad ar gyfer preswylwyr â cherbydau ag arwyddion ysgrifenedig arnynt ac nad ydynt yn gysylltiedig â busnes, nac yn cynhyrchu gwastraff masnachol, a lle'r oedd y cerbyd wedi'i gofrestru i eiddo preswyl ac yn destun treth y cyngor. Gofynnodd bod y polisi'n cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r amgylchiadau hynny, neu'n cael ei oedi er mwyn i'r Gwasanaethau Stryd allu datblygu eithriad.

Cynigodd y Cynghorydd Peers y dylai'r polisi gael ei ddiwygio i roi pas i'r preswylwyr hynny sydd â cherbyd gydag arwydd ysgrifenedig arno ond nad ydynt yn cynhyrchu gwastraff masnachol nac ychwaith yn gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu, ond yn hytrach yn defnyddio'r cerbyd i hyrwyddo eu busnes er budd y gymuned, a dywedodd fod hyn wedi'i ganiatáu yn y gorffennol. Roedd y Cynghorydd Peers o'r farn y dylid cael "system dwy haen" ac y gellid gwella'r sefyllfa bresennol drwy'r wybodaeth a ddarperir wrth wneud cais am bas, a fyddai'n rhoi'r hawl i breswylwyr gael gwared ar eu gwastraff cartref. Wrth ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Peers, eglurodd y Prif Swyddog ei fod yn faes heriol i'w reoli a'i blismona, oherwydd bod llawer iawn o wastraff masnachol yn debyg i wastraff y cartref ac felly mae'n anodd gwahaniaethu rhwng y gwastraff a gynhyrchir gan eiddo domestig, ond sy'n fwy tebygol o gael ei gludo gan gerbyd masnach. Siaradodd y Prif Swyddog am y potensial ar gyfer mwy o geisiadau am basys a fyddai'n effeithio ar gyfraddau ailgylchu a gwastraff.

Awgrymodd y Cynghorydd Peers y dylid diwygio'r Polisi fel a ganlyn: lle mae'r polisi'n nodi na fyddai cerbydau ag arwyddion ysgrifenedig yn cael eu caniatáu, dylai hyn fod yn berthnasol i gerbydau masnach yn gysylltiedig â

gwastraff masnachol ac yn Adran 2 - gwirio'r cerbydau o dan y cerbydau a ganiateir, bydd cerbyd ag arwydd ysgrifenedig yn cael ei ganiatáu ar yr amod ei fod wedi'i gofrestru i gyfeiriad preswyl yn Sir y Fflint at ddibenion treth y Cyngor, nid yw'n cynhyrchu unrhyw wastraff busnes neu fasnachol a'r unig wastraff a waredir yw gwastraff domestig. Awgrymodd y Cynghorydd Peers y gallai hyn fod yn rhan o'r broses ac y gellid ei wirio, a gallai'r cerbyd gael ei wirio a'i fonitro gan y gweithiwr wrth iddo gyrraedd safle'r Ganolfan.

Eiliodd y Cynghorydd Richard Lloyd y cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Peers. Siaradodd y Cynghorydd Lloyd o blaid system codi tâl i alluogi preswylwyr i dalu i eitemau swmpus gael eu cludo i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref er mwyn eu gwaredu os nad ydynt yn gallu cludo'r eitemau eu hunain.

Ymatebodd y Prif Swyddog i'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan Aelodau.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorwyr Dan Rose a Mike Peers.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r adolygiad a gynhaliwyd ac yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Pas Cerbyd ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, gan ychwanegu'r diwygiad a nodwyd uchod am gerbydau â logos a gwastraff masnachol;
- (b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym i gynnwys teiars fel llif gwastraff ychwanegol ar system archebu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref er mwyn rheoli a lleihau gwastraff: a
- (c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynigion ychwanegol i wella gwasanaethau a rheolyddion gweithredol Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

#### **30. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CLEFYD COED YNN**

Cyflwynodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol adroddiad i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sut yr oedd Cyngor Sir y Fflint wedi mynd i'r afael â Chlefyd Coed Ynn yn 2021/22 yn unol â Chynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn 2019, a'r argymhellion yn dilyn archwiliad mewnol ym mis Gorffennaf 2021.

Rhoddodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Roedd y Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn 2019 yn nodi ac yn cynnig ffyrdd o reoli'r risg a'r costau'n gysylltiedig â Chlefyd Coed Ynn, gan dynnu sylw at lle'r oedd coed heintus wedi cynyddu risg i ddiogelwch y cyhoedd a'r gost ariannol i'r Cyngor. Er mwyn cymedroli a rheoli'r risg yn gysylltiedig â chlefyd coed ynn, cynhaliwyd cyfres o arolygon i asesu dosbarthiad ac i ddosbarthu'r clefyd ar goed ynn ar ochr ffyrdd sy'n flaenoriaeth a ffyrdd eilaidd. Cynhelir rhaglen torri coed ar goed mae Cyngor Sir y Fflint yn berchen arnynt, ac mae tîrfeddiannwyr â choed

heintus wedi cael eu hysbysu er mwyn tynnu sylw at glefyd coed ynn yn eu coed, gyda'r disgwyliad y byddant yn rheoli eu coed eu hunain i liniaru'r risgiau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y gwaith ar adfer i ailblannu'r coed a gollwyd oherwydd y clefyd, a gofynnodd a fyddai pob ardal yn destun arolwg safle ei hun. Soniodd y Cynghorydd Peers am yr effaith ar dirweddau hefyd. Cydnabu'r Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol y pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Peers ac eglurodd bod adfer yn rhan bwysig o'r Cynllun Clefyd Coed Ynn a dywedodd y byddai ardaloedd yn cael eu hystyried fesul achos gan na fyddai pob ardal yn gwarantu plannu coed ychwanegol am resymau amrywiol. Dywedodd fod y prif ffocws ar liniaru risg.

Ymatebodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol i'r pryderon a'r cwestiynau pellach a godwyd gan Aelodau mewn perthynas ag amserlenni, ailblannu, effaith ar fioamrywiaeth, y gost i'r Cyngor am ddelio gyda Chlefyd Coed Ynni, a thynnu / cael gwared ar goed sydd wedi'u heintio.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorwyr Mike Peers a Mike Allport.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei nodi a bod y gwaith parhaus yn gysylltiedig â Chlefyd Coed Ynn yn cael ei gefnogi.

## **31. ADRODD ADRAN 6 BIOAMRYWIAETH**

Darparodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol yr adroddiad a oedd yn manylu ar gynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei ddyletswydd bioamrywiaeth o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd yr adroddiad yn egluro Cynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth y Cyngor 2020 - 2023, 'Cefnogi Natur yn Sir y Fflint' a chynnydd y camau i gyflawni'r amcanion, gan dynnu sylw at feysydd allweddol o waith bioamrywiaeth o fewn y Sir. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys yr adroddiad Adran 6 statudol a fyddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2023 ar ddiwedd yr ail rownd adrodd 3 blynedd.

Darparodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif bwyntiau, gan gyfeirio at y 6 amcan a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni camau gweithredu i gyflawni 20 cam y Cynllun dan yr amcanion (Atodiad 1).

Canmolodd y Cynghorydd Mike Peers waith y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol a'i dîm, a llwyddiant y cynlluniau a gynhaliwyd yn y gymuned, gan nodi'r 'cynllun dŏl blodau gwyllt' fel enghraifft.

Siaradodd y Cynghorydd Chris Dolphin o blaid y cynllun 'dŏl blodau gwyllt' ond dywedodd fod rhai pryderon wedi cael eu mynegi ynglŷn â'r perygl o dân oherwydd tywydd eithriadol o boeth a sych a gwair hir. Cydnabu'r Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol y pwynt a wnaed ac esboniodd, ar y cyfan, oherwydd yr ardaloedd bach dan sylw a monitro amodau hinsawdd lleol,

teimlwyd bod y manteision yn gorbwyso'r risg bosibl. Rhoddodd sicrwydd bod hyblygrwydd i dorri'r gwair ar unrhyw adeg os oedd angen.

Siaradodd y Cynghorydd Chris Bithell am waith y Gwasanaeth Cynllunio a'r ffyrdd y gallai cynllunio helpu gyda bioamrywiaeth.

Mynegodd y Cynghorydd Dan Rose bryderon ynglŷn â cholli cynefin. Soniodd am golli mannau gwyrdd a gwrychoedd oherwydd datblygiad cynllunio ac am wasanaethau eraill a ddarparwyd gan y Cyngor a oedd yn defnyddio plaladdwyr a dulliau rheoli eraill. Gofynnodd a oedd cofnod mewn lle i fonitro'r effaith. Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y gellid mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Rose yn yr Adroddiad Monitro a fyddai'n eistedd ochr yn ochr â'r CDLI ac fe allai gael sylw yng nghyfarfod y Grŵp Strategaeth Cynllunio.

Siaradodd y Cynghorydd David Healey o blaid pwysigrwydd bioamrywiaeth ar lefel leol gan gyfeirio at gyfranogiad Cyngor Tref a Chymuned.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Roy Wakelam a Mike Peers.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y diweddaraf yn cael ei nodi a'r gwaith parhaus yn gysylltiedig â gwella bioamrywiaeth yn cael ei gefnogi.

## **32. CRONFA FFYNIANT BRO**

Cyflwynodd y Rheolwr Menter ac Adfywio yr adroddiad i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y rhaglen a phrosiectau ac i argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cyllid cyfalaf i fodloni'r gofynion ariannu cyfatebol a ddisgwylir gan Lywodraeth y DU.

Darparodd y Rheolwr Menter ac Adfywio wybodaeth gefndir a dywedodd fod yr adroddiad yn cyflwyno'r diweddaraf am ddatblygiad a chyflwyniad dau gais yn unol â'r strategaeth ymgeisio a gytunwyd gan y Cabinet ar 18 Ionawr 2022 ac ar drydydd cais cludiant strategol. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen yn gyffredinol ac yn ceisio dyraniad o gyllid cyfatebol o'r rhaglen gyfalaf o £1,106,915 (£630,467 cais Alyn a Glannau Dyfrdwy, £476,448 cais Delyn) er mwyn tynnu cyllid Llywodraeth y DU i lawr.

Soniodd y Cynghorydd Mike Peers am y risg o ran argaeledd cyllid cyfatebol y cyfeirir ato ar dudalen 124 yr adroddiad. Awgrymodd, gan nad oedd cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24 wedi cael ei chyflwyno eto, y dylid cytuno ar argymhelliad 3 mewn egwyddor yn unig nes yr oedd manylion pellach am y gyllideb yn hysbys. Ymatebodd y Swyddogion i'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Peers ynglŷn â'r ceisiadau a gyflwynwyd ac fe wnaethant sylwadau ar yr ymrwymiad cadarn i gael yr arian sydd ei angen. Ni eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Peers.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Dan Rose a Mike Allport.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y cynnydd o ran datblygu a chyflwyno ceisiadau i ail rownd Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU yn cael ei nodi;
- (b) Bod y risgiau a'r mesurau lliniaru yn gysylltiedig â'r pecyn o brosiectau yn cael eu nodi; a
- (c) Bod y dyraniad o gyllid cyfatebol o hyd at £1.107m o'r rhaglen gyfalaf yn 2024/2025 yn cael ei gefnogi.

**33. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU**

Cyflwynodd y Rheolwr Menter ac Adfywio'r adroddiad. Darparodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod yr adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad yr isadeiledd rheoli rhaglen, yn lleol ac yn rhanbarthol, ac yn nodi'r blaenoriaethau a argymhellir ar gyfer y rhaglen yn ogystal â'r meini prawf a fyddai'n cael ei ddefnyddio i asesu'r prosiectau sy'n ceisio cyllid drwy'r rhaglen. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu diweddariad eang ar y prosiectau Cyngor strategol a oedd wrthi'n cael eu datblygu'n barod ar gyfer y rhaglen. Gofynnwyd i'r Aelodau argymhell i'r Cabinet gymeradwyo'r fframwaith o flaenoriaethau a phrosesau angenrheidiol i weithredu'r rhaglen yn effeithiol.

Siaradodd y Cynghorydd David Healey o blaid y prosiect ac fe ganmolodd y Rheolwr Menter ac Adfywio ar ei waith.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Dan Rose a Mike Allport.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) bod y cynnydd a wnaed o ran datblygu rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhanbarthol ac yn lleol yn cael ei nodi;
- (b) bod yr amlinelliad bras o'r strwythurau a'r prosesau a ddefnyddir i ddarparu'r rhaglen yn cael ei nodi; a
- (c) bod defnyddiau arfaethedig o gronfeydd 2022/2023 gan y Cyngor yn cael eu cefnogi.

**34. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.58 pm)

---

## Cadeirydd